## RHAN 3 - CYNLLUN DIRPRWYO I BWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

### 1. CYFFREDINOL

1.1 Mae cynnwys y cynllun hwn yn ychwanegol at bob awdurdod dirprwyedig arall sy'n gynwysedig yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac yn arbennig yn Erthyglau 6, 7, 8, 9 a 10, mewn mannau eraill yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad, a hefyd unrhyw reolau gweithdrefn perthnasol yn Rhan 4 y Cyfansoddiad.

1.2 Yn y cynllun hwn mae unrhyw gyfeiriad at ddeddfwriaeth yn swyddogaethau a phwerau pwyllgorau ac is-bwyllgorau yn cynnwys deddfau, deddfwriaeth eilaidd, rheoliadau, rheolau, gorchmynion, cyfarwyddiadau ac is-ddeddfau a phob ailddeddfiad, diwygiad neu estyniad ohonynt a fo mewn grym o bryd i'w gilydd.

1.3 Oni bai fod y cyd-destun yn mynnu'n wahanol, mae'r unigol yn cynnwys y lluosog a'r lluosog yn cynnwys yr unigol.

### 2. PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU (YN CYNNWYS BWRDD Y CYNGOR).

2.1 Bydd gan Fwrdd y Cyngor yr awdurdod i ddirprwyo i is-bwyllgor pob gallu i weithredu ar ran y Bwrdd a'r Cyngor unrhyw bwerau a swyddogaethau a ddirprwywyd iddo, ond yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau ychwanegol a osodir gan y Bwrdd neu'r Cyngor.

2.2 Gall pwyllgor sy'n cyflawni swyddogaethau'r Cyngor neu'r Bwrdd wneud unrhyw beth a fo wedi'i fwriadu i hwyluso a hyrwyddo cyflawni'r swyddogaethau hynny, neu a fo'n arwain at hynny, neu'n rhan o'r broses.

2.3 Yn ogystal, gall y Cyngor, Bwrdd y Cyngor, y Prif Bwyllgor Craffu neu bwyllgor craffu sefydlu gweithgor o aelodau, neu o aelodau a swyddogion ar y cyd, i ystyried unrhyw faes o fewn swyddogaethau'r Cyngor er cyflawni unrhyw ymchwil i'r maes hwnnw a chyflwyno adroddiad ac argymhellion i'r corff a'i sefydlodd erbyn dyddiad penodol.

2.4 Cyfansoddir y pwyllgorau canlynol i weithredu ar ran y Cyngor y swyddogaethau hynny a ddisgrifir yn rhan 3 y Cynllun hwn

2.4.1. Y Bwrdd (gweler Erthygl 7).

2.4.2. Y Pwyllgorau Craffu (gweler Erthygl 6).

2.4.3. Y Pwyllgorau Ardal (gweler Erthygl 10).

2.4.4. Y Pwyllgorau Rheoleiddio (gweler Erthygl 8).

2.4.5. Y Pwyllgor Safonau (gweler Erthygl 9).

~~2.4.6 Pwyllgor Cwynion~~
~~7 aelod o'r Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol na all unrhyw rai ohonynt fod yn aelodau'r Bwrdd.~~

2.4.*6* Pwyllgor Adnoddau Dynol
11 aelod o'r Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Bydd y mwyafrif ohonynt yn aelodau'r Cyngor nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd.

2.4.*7* Pwyllgor Apêl Cyflogaeth
7 aelod o'r Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol na all unrhyw un ohonynt fod yn aelod o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol. Bydd y mwyafrif ohonynt yn aelodau'r Cyngor nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd.

2.4.***8*** Pwyllgor Pensiynau
7 aelod o'r Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ynghyd ag un aelod cyfetholedig yr un (gyda phleidlais) o Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Bydd mwyafrif aelodau'r Cyngor ar y pwyllgor yn aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd.

~~2.4.10 Is-bwyllgor Elusennau (is-bwyllgor o'r Bwrdd)~~
~~9 aelod ar sail cydbwysedd gwleidyddol, y mae'n rhaid i o leiaf 4 ohonynt fod yn aelodau o'r Bwrdd.~~

2.4.***9*** Is-bwyllgor Iaith (is-bwyllgor o'r Bwrdd)

7 aelod ar sail cydbwysedd gwleidyddol y mae'n rhaid i o leiaf 3 ohonynt fod yn aelodau o'r Bwrdd.

~~2.4.12 Is-bwyllgor Trethi Annomestig (is-bwyllgor o'r Bwrdd)~~
~~5 aelod o'r Bwrdd ar sail cydbwysedd gwleidyddol.~~

~~2.4.13 Panel Adolygu Tenantiaethau Cyflwyniadol (is-bwyllgor o'r Bwrdd).~~
~~3 aelod o'r Bwrdd ar sail cydbwysedd gwleidyddol.~~

## 3. MEYSYDD GWAITH Y PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU SEFYDLOG

### (A) BWRDD Y CYNGOR

Cyflawni holl swyddogaethau'r Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldeb unrhyw ran arall o'r Cyngor, p'un ai o dan y gyfraith neu o dan y Cyfansoddiad hwn. (Ni fydd y Bwrdd yn gyfrifol am y swyddogaethau a ddynodir fel rhai nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Bwrdd yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn).

### (B) Y PWYLLGORAU CRAFFU

O fewn eu hamodau gorchwyl, bydd pwyllgorau craffu yn:

(i) adolygu a/neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor;
(ii) rhoi adroddiadau a/neu argymhellion i'r Cyngor a/neu'r Bwrdd a/neu unrhyw gydbwyllgor neu bwyllgor ardal mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaethau;
(iii) ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu ei thrigolion;
(iv) argymell yn achos penderfyniad sydd wedi ei wneud ond heb ei weithredu, y dylai'r penderfyniad gael ei ail-ystyried gan y pwyllgor, is-bwyllgor neu'r person a'i gwnaeth; ac
(v) yn achos y Prif Bwyllgor Craffu ymarfer yr hawl i alw i mewn benderfyniadau'r Bwrdd a/neu Arweinyddion a'u cyfeirio yn ôl at y penderfynwr i'w ail ystyried neu eu cyfeirio ymlaen i'r Cyngor llawn.

## (C) Y PWYLLGORAU ARDAL

PWYLLGOR ARDAL ARFON
PWYLLGOR ARDAL DWYFOR
PWYLLGOR ARDAL MEIRIONNYDD

Bydd y tri Pwyllgor Ardal a enwir uchod yn cyflawni'r swyddogaethau canlynol o fewn ei ardal ddaearyddol ei hun:-

- (i) Gwneud sylw ac argymhellion i'r Cyngor neu'r Bwrdd neu unrhyw bwyllgor priodol arall mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n dod o fewn swyddogaethau'r Cyngor ac sydd yn berthnasol i ardal y Pwyllgor Ardal;
- (ii) Gwneud sylwadau ar faterion sy'n effeithio ar fuddiannau ardal y Pwyllgor Ardal;
- (iii) Penodi aelodau i wasanaethu ar gyrff allanol perthnasol i swyddogaethau'r Cyngor o fewn ardal y Pwyllgor Ardal;
- (iv) Penderfynu ar faterion rheolaeth datblygu yn unol â chynllun dirprwyo manwl y gwasanaeth Cynllunio;
- (v) Yn amodol ar dderbyn adroddiad gan Uned Eiddo'r Cyngor a sylwadau'r Swyddogion Statudol a'r aelod lleol, penderfynu ar brynu (neu gaffael mewn modd arall) a gwaredu eiddo unigol ac eithrio penderfyniadau lle cyfyd ystyriaethau strategol neu o fuddiannau corfforaethol y Cyngor ac a gyfeiriwyd gan yr Uwch Arweinydd (Adnoddau) (mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Ardal a'r aelod(au) lleol) i'r Bwrdd i'w penderfynu.
- (vi) Gwneud gorchmynion rheoli traffig lle bynnag bo gwrthwynebiad i'r bwriad ar ôl hysbysebu;
- (vii) Penderfynu ar geisiadau i osod mân-ddaliadau a ffermydd;
- (viii) Gwneud argymhellion i'r Bwrdd neu'r Cyngor (fel bo'n briodol) ar unrhyw is-ddeddf sy'n berthnasol i ardal y Pwyllgor Ardal yn unig, ac unrhyw orchymyn i atal yfed ar y stryd;
- (ix) Gwneud argymhellion i'r Cyngor ynglŷn ag enwau cymunedau;
- (x) Penderfynu ar geisiadau i ganiatáu ail-werthu eiddo lle gosodwyd amod yn cyfyngu'r gwerthiant i berson lleol;
- (xi) Monitro trefniadau darparu gwasanaeth o fewn yr ardal gan wneud argymhellion i'r Cyngor, y Bwrdd neu bwyllgor arall fel bo'n briodol;
- (xii) Penderfynu ar faterion marchnadoedd a ffeiriau sy'n effeithio ar fuddiannau ardal y Pwyllgor Ardal;
- (xiii) Penderfynu ar flaenoriaethau gwariant ar fan-welliannau lle dyrannwyd cyllideb ar sail Pwyllgor Ardal;
- (xiv) Penderfynu ar geisiadau i gofrestru, creu, cau neu wyro unrhyw hawl tramwy cyhoeddus;
- (xv) Penderfynu ar unrhyw faterion trwyddedu nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Trwyddedu.

### IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU ARDAL

Cyflawni'r swyddogaethau isod ar ran y Pwyllgor Ardal perthnasol.

- (i) Penderfynu ar geisiadau am drwyddedau tacsis a cherbydau hur lle mae gwrthwynebiad wedi ei dderbyn.

- (ii) Penderfynu ar apeliadau gan weithredwyr tacsis a cherbydau hur.

(iv) Penderfynu ar apeliadau yn ymwneud â thrwyddedu dodrefn ar y stryd.

(v) Unrhyw swyddogaethau eraill a ddirprwyir i'r is-bwyllgor gan y Pwyllgor Ardal.

**PANEL MAN-DDALIADAU**.

Cyflawni'r swyddogaethau isod ar ran y Pwyllgor Ardal perthnasol.

(i) Penderfynu ar geisiadau i osod mân-ddaliadau a ffermydd.
(ii) Unrhyw swyddogaeth arall a ddirprwyir i'r panel gan y Pwyllgor Ardal.

## (CH) Y PWYLLGORAU RHEOLEIDDIO

### Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflawni'r swyddogaethau canlynol:-

(i) Hybu rheolaeth fewnol, gan sefydlu amserlen i adolygu rheolaeth, datblygu diwylliant sydd yn milwrio yn erbyn twyll ac adolygu gweithdrefnau cyllidol;
(ii) Canolbwyntio adnoddau archwilio'r Cyngor trwy gytuno ar gynlluniau archwilio a monitro darpariaeth archwilio;
(iii) Monitro perfformiad archwilio trwy sicrhau gwaith swyddogion o fewn amserlenni, sicrhau bod adroddiadau archwilio yn cael eu cyhoeddi yn brydlon ac yr ymatebir iddynt yn yr un modd, monitro cwblhau'r cyfrifon a sicrhau y gweithredir argymhellion archwilio;
(iv) Ystyried sylwadau a phryderon am wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan swyddogion o'r Cyngor, y Comisiwn Archwilio neu'r Archwiliwr Dosbarth.
(v) Cymeradwyo datganiad cyfrifon y Cyngor dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 ynghyd ag unrhyw ddogfennau cysylltiedig.
***(vi) Ystyried adroddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dan Adran 16 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 a phenderfynu sut i weithredu.***
***(vii) Derbyn adroddiad blynyddol ar gwynion dan drefn gwynion y Cyngor.***

### Y PWYLLGOR CYNLLUNIO CANOLOG

Cyflawni'r swyddogaethau canlynol:-

(i) penderfynu, ar ran y Cyngor, ar unrhyw geisiadau cynllunio a ystyrir yn faterion sirol gan bod effaith y cais yn ymestyn dros ffiniau mwy nag un o ardaloedd y Cyngor;

(ii) dyfarnu ar unrhyw benderfyniadau gan y pwyllgorau ardal, na chaiff y Bwrdd ymdrin â hwy, sydd naill ai wedi eu galw i mewn gan swyddog o dan Reol Gweithdrefn 17 y Cyngor neu wedi eu cyfeirio i fyny gan y nifer priodol o aelodau o dan Reol Gweithdrefn 21 y Cyngor.

### Y PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cyflawni'r swyddogaethau canlynol:-

(i) penderfynu ar geisiadau am drwyddedau dan Ddeddf Trwyddedu 2003, yn unol â'r cynllun dirprwyo trwyddedu.

(ii) ymdrin â materion cyffredinol (yn hytrach na rhai'n ymwneud ag eiddo unigol), yn ymwneud â phwerau gorfodaeth y Cyngor dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, a.y.b. 1974.
(iii) ymdrin â materion cyffredinol (yn hytrach na rhai'n ymwneud ag eiddo unigol) yn codi o ddyletswydd y Cyngor i gofrestru safleoedd busnesau bwyd a gorfodi Deddf Diogelwch Bwyd 1990.
(iv) penderfynu ar bolisïau sirol ar gyfer trwyddedu a gamblo.

**(D) PWYLLGORAU ERAILL**

**Y PWYLLGOR SAFONAU**

Sicrhau y gwarchodir safonau ymddygiad o fewn y cyngor a phriodoldeb yn holl drafodion y cyngor, trwy:-

(i) hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan gynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni-lywodraethwyr;

(ii) cynorthwyo'r cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni-lywodraethwyr i gadw Côd Ymddygiad yr Aelodau;

(iii) cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio Côd Ymddygiad yr Aelodau;

(iv) monitro gweithredu Côd Ymddygiad yr Aelodau;

(v) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni llywodraethwyr ar faterion yn ymwneud â Chôd Ymddygiad yr Aelodau;

(vi) rhoi gollyngiadau i gynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni llywodraethwyr o ofynion yn ymwneud â buddiannau a gyflwynwyd yng Nghôd Ymddygiad yr Aelodau;

(vii) ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro, ac unrhyw adroddiad oddi wrth y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan yr Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

(viii) awdurdodi'r Swyddog Monitro i dalu lwfansau a threuliau i bersonau a'i gynorthwyodd gyda ymchwiliad;

(ix) ymarfer (i) i (viii) uchod mewn perthynas â'r cynghorau cymuned sy'n gyfangwbl neu gan fwyaf yn ei ardal ac aelodau'r cynghorau cymuned hynny.

**~~Y PWYLLGOR CWYNION~~**

~~(i) Paratoi cynllun corfforaethol i ymdrin â chwynion ar ran y cyngor a'i~~
~~(ii) adolygu o bryd~~
~~i'w gilydd;~~
~~(iii) Ystyried cwynion penodol ac adroddiadau'r Swyddog Monitro a phenderfynu ym mha fodd i weithredu;~~
~~(iv) Ystyried adroddiadau'r Comisiynydd dros Lywodraeth Leol yng Nghymru a phenderfynu sut i weithredu.~~

**Y PWYLLGOR ADNODDAU DYNOL**

(i) Rhoddi cyfweliad rhagarweiniol i ymgeiswyr am swydd y Prif Weithredwr a chyflwyno argymhellion i'r Cyngor;
(ii) Penodi Cyfarwyddwyr Strategol;
(iii) Penodi Penaethiaid Gwasanaeth;
(iv) Tynnu rhestr fer at ddibenion (i) i (iii) uchod.
(v) Penderfynu ar gamau disgyblaeth yn erbyn aelodau o staff yn y swyddi a restrir yn (i) i (iii) uchod.

**Y PWYLLGOR APÊL CYFLOGAETH**

(i) Penderfynu ar apeliadau gan aelodau o'r staff yn erbyn camau disgyblaeth a gymerwyd yn eu herbyn yn sgil camymddwyn difrifol, ac eithrio athrawon, darlithwyr ac arweinyddion ieuenctid;
(ii) Penderfynu ar apeliadau gan aelodau o'r staff yn erbyn penderfyniadau ar geisiadau i ailraddio neu ymddeol yn gynnar;
(iii) Penderfynu ar apeliadau yn sgil cwynion gan unigolion neu grwpiau o'r staff am unrhyw reswm ynglŷn â'u cyflogaeth ac eithrio'r materion hynny sy'n disgyn i faes unrhyw bwyllgor arall.

**Y PWYLLGOR PENSIYNAU**

(i) Pennu'r strategaeth o ran buddsoddi arian a fo'n weddill ym meddiant y gronfa flwydd-dal a chronfeydd ymddiriedol eraill;

(ii) Penodi a therfynu penodi rheolwyr ac ymgynghorwyr cronfeydd arbenigol; adolygu'r perfformiad mewn perthynas â buddsoddiad;

(iii) Sicrhau bod trefniadau diogel ac effeithlon mewn llaw ar gyfer prynu, gwerthu a gofalu am fuddsoddiadau'r cyngor;

(iv) Cymryd penderfyniadau yng nghyswllt gweinyddu pensiynau.

**(DD) IS-BWYLLGORAU O'R BWRDD**

~~**YR IS-BWYLLGOR ELUSENNAU**~~
~~Penderfynu ar geisiadau am gymorth ariannol oddi wrth Gronfa'r Degwm a chronfeydd elusennol eraill dan reolaeth y Cyngor fel ymddiriedolwr.~~

**YR IS-BWYLLGOR IAITH**
Penderfynu ar unrhyw faterion yn ymwneud â gweithrediad cynllun neu bolisi iaith y Cyngor.

~~**YR IS-BWYLLGOR TRETHI ANNOMESTIG**~~
~~Penderfynu ar geisiadau am ryddhad rhag trethi annomestig.~~

~~**PANEL ADOLYGU TENANTIAETHAU CYFLWYNIADOL**~~
~~Penderfynu ar apeliadau dan y drefn tenantiaethau cyflwyniadol.~~

## (E) CYD-BWYLLGORAU

**CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSG ARBENNIG**

Gweithredu yn unol â chyfansoddiad y cydbwyllgor.

**PWYLLGOR RHEOLI TRAETH LAFAN**

Rheoli Gwarchodfa Natur Leol Traeth Lafan.

**TAITH**

Gweithredu yn unol â chyfansoddiad y cydbwyllgor.

**TraCC**

Gweithredu yn unol â chyfansoddiad y cydbwyllgor.